

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	2 Ebrill 2019
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	17 Ebrill 2019

PWNC

Eitem 6:AILSTRWYTHURO CANOLFANNAU IAITH

PENDERFYNIAD

Penderfynwyd

- i. Gweithredu cynllun peilot o strwythur staffio o athro a chymhorthydd gan gynyddu'r gymhareb athro : disgybl mewn un Canolfan Iaith am gyfnod o flwyddyn, gan ei fonitro'n ofalus er mwyn canfod a ydyw yn cael effaith ar ansawdd yr addysg a chyrrhaeddiad y plant
- ii. Diddymu lwfans CAD i athrawon ymhob Canolfan Iaith, ynghyd ag ymgorffori'r ôl-ofal yn rhan o ddarpariaeth graidd y Canolfannau Iaith, gan ddiddymu'r swydd ôl-ofal sydd yn bodoli ar hyn o bryd.
- iii. Er mwyn prynu amser i ystyried canlyniadau'r peilot, cymeradwyo cyllid pontio i gyfarch y bwloch fydd yn parhau i fodoli ar ôl gweithredu ar ii uchod hyd nes y bydd casgliadau'r peilot yn wybyddus.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn hanesyddol, bu i'r Canolfannau Iaith eu cyllido drwy grant gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg gydag arian cyfatebol gan y Cyngor. Pan ddiddymwyd Bwrdd yr Iaith, bu i'r Canolfannau Iaith gael ei gyllideb yn yr un modd drwy Grant y Gymraeg mewn Addysg gan Lywodraeth Cymru, gyda Chyngor yn parhau i ddarparu arian cyfatebol,.

Ers 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi dod a 11 o'r Grantiau addysg o dan yr un pennawd sef Grant Gwella Addysg, sydd yn cynnwys Grant y Gymraeg mewn Addysg. Bellach, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r Grant Gwella Addysg drwy'r consortia rhanbarthol GwE, gyda phob awdurdod yn cyfrannu arian cyfatebol i'r rhanbarth, cyn iddo gael ei drosglwyddo yn ôl o GwE i'r awdurdodau.

Mae chwyddiant a gostyngiad blynyddol wedi bod yn y Grant Gwella Addysg ers 2014/15, ond drwy'r cyfan mae'r Canolfannau Iaith wedi eu gwarchod. Yn 2018/19 bu toriad o 10% yn y Grant Gwella Addysg, a olygai diffyg o £61,000 yng nghyllideb 2018/19 ymlaen. Yn 2018/19, llwyddwyd i bontio'r diffyg hwn ar gyfer y Canolfannau Iaith.

Er bod newyddion gwell na'r disgwyl wedi ei dderbyn ynglŷn â'r Grant Gwella Addysg, yn sgil chwyddiant i gyflogau a phensiynau athrawon, mae'n golygu fod diffyg pellach yn y

gyllideb ar gyfer y Canolfannau Iaith o £35,000. Er mwyn cynnal sefyllfa staffio bresennol, byddai'n ofynnol i'r Adran ganfod cyllideb amgen i gyfarch y bwch ariannol. Gan nad yw'r adran wedi adnabod ffynhonnell ariannol ar gyfer gwneud hyn, mae'r adran wedi adnabod yr angen i ail-strwythuro'r gwasanaeth er mwyn gallu darparu'r un gwasanaeth i hwyrddyfodiaid y sir yn fwy cost effeithlon ac o fewn y gyllideb.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r Staff yn y Canolfannau Iaith, ac mae eu sylwadau i'w gweld yn yr adroddiad.

Trafodwyd y mater yn y Pwyllgor Iaith, Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ac yn y Cyngor Llawn, mae'r sylwadau a godwyd i'w gweld yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	2 Ebrill 2019
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	17 Ebrill 2019

PWNC

Eitem 7:ADOLYGU CYFANSODDIAD PWYLLGOR CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG ADDYSG GREFYDDOL GWYNEDD

PENDERFYNIAD

Penderfynwyd newid aelodaeth Grŵp A yn y cyfansoddiad fel a nodi'r isod:

- Grŵp A - Cristnogaeth - cadw yn 6
Cynnig gwahodd un cynrychiolydd o'r credoau
Bwdiaeth, Islam, Hindŵaeth, Iddewiaeth, Siciaeth a'r Dyneiddwyr
- Grŵp B - Cynrychiolaeth Athrawon a Phenaethiaid - cadw yn 5
- Grŵp C - Aelodau Etholedig - cadw yn 7
- Cyfetholedig - Pwyllgor CYSAG i gadw'r hawl i gyfethol aelodau
- 3 pleidiais sydd sef 1 i bob Grŵp - nid oes pleidlais gan yr aelodau Cyfetholedig

Penderfynwyd caniatáu cais y Dyneiddwyr i fod yn rhan o Grŵp A ar bwllgor CYSAG Gwynedd.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Nid oes newid wedi bod i gyfansoddiad CYSAG ers 1996, ac mae llythyr gan y Gweinidog Addysg yn cadarnhau y gellir penodi cynrychiolwyr o systemau cred anghrefyddol i Grŵp A er mwyn sicrhau fod CYSAG yn adlewyrchu credoau'r gymuned ac i gydymffurfio a deddfwriaeth bresennol.

Mae'r Pwyllgor wedi derbyn cais gan Ddyneiddwyr Bangor i gael ymuno fel aelod/au o Grŵp A ar bwllgor CYSAG. Wrth ystyried cais Dyneiddwyr i ymuno, mae'n amserol i roi ystyriaeth i gredoau eraill er mwyn rhoi sylw i amrywiaeth credau Gwynedd ar bwllgor CYSAG. Bydd hyn yn sicrhau fod CYSAG yn gynhwysol gan gynnwys amrywiaeth ehangach o draddodiadau crefyddol na'r hyn sydd ar hyn o bryd.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Ymgynghorwyd a Phwyllgor CYSAG Gwynedd a chymdeithas CYSAGau Cymru.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
CYNGOR GWYNEDD**

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	2 Ebrill 2019
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	17 Ebrill 2019

PWNC

Eitem 8:CYCHWYN TRAFODAETH LEOL AR AGOR YSGOL GYNRADD NEWYDD YNG NGRICIETH

PENDERFYNIAD

Penderfynwyd

- a) Cymeradwyo'r hawl i gychwyn trafodaethau lleol er mwyn adnabod opsiynau ar gyfer adeiladu ysgol gynradd newydd yng Nghricieth fel canlyniad i gyflwr gwael adeiladau presennol Ysgol Treferythyr.
 - b) Cymeradwyo cynnwys Ysgol Llanystumdwy yn y trafodaethau lleol.
-

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae arolygon cyflwr yn ymwneud ag adeilad Ysgol Treferythyr wedi adnabod sawl mater sy'n golygu fod nifer o ddiffygion sylweddol i'r adeiladwaith fydd angen sylw o fewn y 5 mlynedd nesaf. Ar sail hyn, mae'r ysgol wedi ei ddynodi yng nghategori C o ran cyflwr.

Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cychwyn ail wedd Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band B) a fydd yn cychwyn yn Ebrill 2019 ac yn rhedeg hyd at 2026. Adnabuwyd yr angen i wella darpariaeth gynradd yng Nghricieth fel rhan o gais, yn dilyn ymarferiad blaenoriaethu gan y Cyngor.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
CYNGOR GWYNEDD**

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	2 Ebrill 2019
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	17 Ebrill 2019

PWNC

Eitem 9:ARBEDION EFFIETHLONRWYDD PELLACH 2019-20

PENDERFYNIAD

Penderfynwyd defnyddio £1,666,560 o'r Gronfa Trawsffurfio er mwyn ad-dalu'r benthyciad a ddefnyddir i gyflawni'r cynllun lampau LED ac i bontio cyfnod cyflawni'r cynllun er mwyn cymryd y cyfan o'r arbediad o £184,500 i ystyriaeth yn 2019/20

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae Strategaeth Ariannol y Cyngor yn seiliedig ar gyflawni cyfres o arbedion er mwyn cyfyngu'r cynnydd yn y Dreth Cyngor i 5.8%. Er mwyn gallu cyfyngu'r cynnydd mae cynllun gan y Cyngor hefyd yn rhagdybio fod angen darganfod arbedion effeithlonrwydd pellach o £500,000.

Un ffordd o ddarganfod arbedion effeithlonrwydd pellach yw newid y drefn ar gyfer ad-dalu cynllun gosod lampau LED i weddill goleuadau'r stryd sydd gan yr Adran Briffyrdd.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
CYNGOR GWYNEDD**

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	2 Ebrill 2019
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	17 Ebrill 2019

PWNC

Eitem 10:GOSOD RHAGLEN GYFLALAF 2019/20, 2020/21 a 2021/22

PENDERFYNIAD

Gosodwyd y cynlluniau a ddangosir yn Atodiad A yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer y cyfnod tair blynedd 2019/20; 2020/21 a 2021/22.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Ar y 7 Mawrth, bu i'r Cyngor Llawn fabwysiadu'r Cynllun Asedau ar gyfer y 10 mlynedd nesaf. Fel arfer, mae'r rhaglen gyfalaf am y 3 blynedd nesaf yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad am y gyllideb ond gan nad oed y Cyngor wedi mabwysiadu'r Cynllun Asedau nid oedd modd gwneud hynny mewn manylder. Ond fel nododd Atodiad 4, Adroddiad ar y Gyllideb, y byddai symiau penodol yn cael ei darparu ar gyfer y tair blynedd nesaf i gynlluniau o fewn y Cynllun Asedau.

Yn dilyn ymgynghoriad a'r adrannau perthnasol, mae proffil wedi ei sefydlu ar gyfer y cynlluniau unigol o fewn y Cynllun Asedau, ac felly for y cyngor yn cymeradwyo'r cynlluniau a nodi'r yn Atodiad A yn y rhaglen gyfalaf am y tair blynedd nesaf.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
CYNGOR GWYNEDD**

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	2 Ebrill 2019
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	17 Ebrill 2019

PWNC

Eitem 11:BLAEN RAGLEN CABINET

PENDERFYNIAD

Cymeradwyo'r Blaen raglen a gynhwyswyd yn y papurau i'r cyfarfod.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn unol ag Adran 14.13 o Gyfansoddiad y Cyngor, bydd y Cabinet yn rhannu ei Flaen Raglen waith am y cyfnod dilynol o chwe mis gyda'r cyhoedd. Bydd y Blaen Raglen yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn.
